

DEINTYDDFA PEN Y BONT / BRIDGE END DENTAL PRACTICE

GWYBODAETH AM Y PRACTIS

Deintyddion

Dr. Michael A Horton BDS (M/cr) 1986, MFGDP (UK) 1994	GDC 61301
Dr. Stephanie Hamilton BDS (Lpool) 1998	GDC 74929
Dr. Gustavo Dos Santos LMD Portugal 2007	GDC 200937

Rheolwr y Practis: Mrs Rachael Ryan. Cyfeiriad: 6 Bridge End Mews, Caergwrle, Sir y Fflint, LL12 9AY 01978 762030 (www.smilemore.co.uk)

Os ydych yn dod atom am y tro cyntaf, manteisiwn ar y cyfle hwn i'ch croesawu i'r practis. Os hoffech weld Deintydd penodol, gadewch inni wybod yn y Dderbynfa os gwelwch yn dda.

Ein nod yn y ddeintyddfa hon bob amser yw hyrwyddo iechyd deintyddol. Rydym yn eich annog i gael eich dannedd wedi eu harchwilio'n rheolaidd i'w cadw mor iach â phosibl. Os nad oes gennych lawer o ddannedd naturiol neu eich bod heb ddannedd naturiol o gwbl, dylech barhau i gael archwiliad rheolaidd er mwyn bod yn dawel eich meddwl fod eich ceg mewn cyflwr iach. Wrth gynnal archwiliad, edrychwn ar bob rhan o'r geg i wneud yn siŵr fod popeth fel y dylai fod.

Sefydlwyd y practis yn 1986 ac mae wedi tyfu dros y blynyddoedd. Mae ein staff yn cynnwys tri deintydd, 4 nyrs ddeintyddol a derbynnydd/rheolydd practis.

Ein gwasanaethau

Rydym yn dal i dderbyn pawb sy'n dymuno cael triniaeth dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Cawsom hawl gan y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu gwasanaethau GIG fel rhan o gytundeb gwasanaethau deintyddol personol. Cyfeiriad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yw: **Preswylfa, Ffordd Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1PZ (01352) 803434.**

Gallwn hefyd roi triniaethau yn annibynnol os dymunwch. Mae gennym ddewis o wahanol fathau o driniaeth am wahanol brisiau i chi eu hystyried. Yn ogystal â phob triniaeth sydd ar gael dan y GIG, gallwn gynniig amrywiaeth dda o "ddeintyddiaeth gosmetig". Bydd eich deintydd, neu unrhyw aelod o staff y practis, yn falch o'ch helpu i benderfynu beth sydd orau i chi. Cost archwiliad preifat, ynghyd ag adroddiad yw £65.

Waeth pa driniaeth a ddewiswch, byddwch yn derbyn cynllun ysgrifenedig ac amcangyfrif o'r gost fel bod gennych wybodaeth llawn am y driniaeth ac unrhyw gostau cysylltiedig. Sylweddolwn fod pobl yn aml yn pryderu am gost eu triniaeth. Cewch amcangyfrif o'r gost yn syth wedi inni gwblhau eich cynllun a byddwn bob amser yn ceisio gofalu eich bod yn derbyn triniaeth o ansawdd da a fforddiadwy.

Talu am driniaeth

Dan y GIG mae llawer o bobl yn gymwys i dderbyn triniaeth ddeintyddol di-dâl. Mae hyn yn wir ar gyfer pob triniaeth sydd ar gael dan y GIG. Mae o gymorth os yw pobl nad ydynt yn gorfod talu yn cyflwyno tystiolaeth o'u hawl i dderbyn triniaeth di-dâl. Ceisiwn roi yr un gofal ansawdd uchel i bawb – boed hynny dan y GIG neu yn breifat.

Y rhai sydd â hawl otomatig i dderbyn triniaeth ddi-dâl yw -

- Pawb dan 18 oed
- Pawb mewn addysg llawn amser hyd at 19 oed
- Y rhai sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm, Credydau Treth
- Y rhai sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith
- Merched beichiog a mamau plant dan 1 oed

Os oes gennych hawl i dderbyn triniaeth ddeintyddol ddi-dâl, gofynnwn ichi gyflwyno tystiolaeth i brofi eich hawl i beidio talu, ond ni fydd peidio â gwneud hynny yn eich rhwystro rhag derbyn triniaeth.

Bydd pobl dan 25 oed neu dros 60 oed sydd angen archwiliad yn unig yn derbyn yr archwiliad hwnnw'n ddi-dâl dan y GIG. Gall rhai pobl eraill hefyd dderbyn triniaeth yn ddi-dâl neu gymorth tuag at gost eu triniaeth ddeintyddol. Mae hyn fel arfer yn wir am bobl ar gyflogau isel, myfyrwyr etc. I ganfod os oes gennych hawl o'r fath, bydd angen ichi lenwi ffurflen HC1, sydd ar gael yn y Dderbynfa. Gallwch hefyd weld manylion bandiau talu'r GIG. Os ydych yn gorfod talu, rhaid ichi wneud hynny cyn diwedd y driniaeth. Mae sawl ffordd o dalu, yn cynnwys cardiau debyd a chredyd.

Mynediad ar gyfer Pobl Llai Abi

Ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd cerdded, mae modd cael mynediad rhannol i'r adeilad mewn cadair olwyn. Mae toiledau ar y llawr daear. Fel arfer, mae ein holl offer o fewn cyrraedd i ddarparu triniaethau. Er mor annhebygol, os na allwn ddarparu triniaeth, fe drefnwn i'r gwaith gael ei wneud yn rhywle arall. Gallwn hefyd ddarparu tafenni gwybodaeth mewn print mawr os oes angen.

Yn poeni am eich triniaeth?

Mae llawer o bobl yn poeni'n arw wrth feddwl am fynd i weld y deintydd. Rydym yn deall hyn yn iawn ac yn eich annog i drafod eich pryderon gyda ni fel y gallwn eich trin yn llawn cydymdeimlad. Byddwn yn eich helpu i oresgyn eich pryderon fel y gallwch ymlacio a theimlo'n gartrefol wrth dderbyn eich triniaeth. Os oes unrhyw agwedd o'ch iechyd deintyddol neu olwg eich dannedd yn eich poeni, mae croeso ichi drafod hynny gyda'ch deintydd.

Mewn deintyddfa fodern mae llawer o ddatblygiadau newydd i wella effeithiolrwydd a golwg eich dannedd. Er gwaethaf rhai straeon a glywch, mae triniaethau yn aml yn gymharol syml, a heb fod yn rhy ddrud .

Oriau'r Ddeintyddfa

Yr oriau arferol yw 9.00am i 5.30pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau a than 4.30pm ar Ddydd Gwener. Byddwn yn cau am ginio rhwng 12.30pm a 1.30pm. Mae'r practis ar gau yn ystod gwyliau cyhoeddus.

Argyfyngau Deintyddol (tu allan i oriau'r Ddeintyddfa)

Tu allan i'n horiau arferol mae gennym wasanaeth argyfwng o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 6.00pm y nos ac 8.00am y bore canlynol. Mae gwasanaeth 24 awr ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul ac yn ystod gwyliau cyhoeddus. I gysylltu mewn argyfwng, ffoniwch y ddeintyddfa a bydd ein peiriant ateb yn dweud pa rif y dylech ei ffonio.

Argyfyngau Deintyddol (yn ystod oriau'r Ddeintyddfa)

Os ydych angen triniaeth argyfwng yn ystod oriau'r ddeintyddfa, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Dywedwch wrth y Derbynydd eich bod angen apwyntiad argyfwng ac fe wnaiff ei gorau glas i sicrhau eich bod yn derbyn sylw ar fyrder. Y cynharaf y ffoniwch, yr hawsaf fydd trefnu apwyntiad. Os ffoniwch yn hwyr yn y dydd, mae'n anoddach canfod amser gan fod y practis yn brysurach bryd hynny.

Apwyntiadau

I'ch helpu i gofio am eich ymweliadau rheolaidd, byddwn yn anfon nodyn i'ch atgoffa o ddyddiad ac amser eich archwiliad rheolaidd nesaf. Mae hyd y cyfnod rhwng apwyntiadau'n amrywio yn ôl eich anghenion penodol. Cofiwch mai gwasanaeth atgoffa er cwrtseisi yw hwn. Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw gofalu dod yn rheolaidd.

Os na allwch gadw apwyntiad, rhowch wybod inni cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda. Mae'r practis yn brysur dros ben a bydd rhywun arall yn falch o fedru cymryd eich lle. Gall methu apwyntiad a chanslo apwyntiad yn hwyr effeithio ar eich hawl i ofal deintyddol dan y GIG.

Eich gwarchod chi a'r tîm deintyddol

Fel practis gofalgarg, cymerwn bob cam angenrheidiol i ddiogelu cwsmeriaid a staff rhag cael eu heintio gan unrhyw fath o glefyd. Caiff ein holl offer ei lanhau a'i ddiheintio yn ôl y safonau a argymhellir ac mae llawer o eitemau yn cael eu taflu ar ôl eu defnyddio unwaith yn unig. Ni fyddwn yn goddef bygythiad corfforol na sarhad geiriol i'n staff a chwsmeriaid. Gofynnwn i unrhyw un sy'n ymddwyn yn fygythiol adael yr eiddo ac efallai y byddwn yn galw'r heddlu.

Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau a'r technegau diweddaraf

Ar ôl i staff ar bob lefel gymhwyso, credwn y dylent barhau i ddiweddarau eu gwybodaeth a bod yn ymwybodol o'r datblygiadau mwyaf modern.

Mae pob aelod o staff yn mynychu amrywiaeth o gyrsiau graddedigion a chymryd rhan mewn digwyddiadau addysgol er mwyn ehangu eu gwybodaeth ac ymgyfarwyddo â thueddiadau modern. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd ac yn trefnu hyfforddiant mewnol.

Rydym yn annog nyrsys i ennill diplomau cenedlaethol a diweddarau eu gwybodaeth am ddatblygiadau modern.

Rhagor o wybodaeth

Da chi, gofynnwch os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder am y practis neu eich anghenion, er enghraifft cost eich triniaeth neu'r drefn ar gyfer ei roddi. Cysylltwch â Mrs. R.Ryan yn y practis a bydd hi'n falch o drafod eich consyrn. Mae'r practis hefyd yn gweithredu trefn gwyno os oes angen.

Bydd unrhyw wybodaeth a gedwir yn y practis am ein cwsmeriaid yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Rydym yn atgoffa staff o'r angen i beidio datgelu unrhyw wybodaeth i bobl heb hawl i wybod. Gall pob cwsmer ofyn am weld copi o'r manylion a gedwir amdanynt am dâl gweinyddol bychan. Gall Mrs. R.Ryan eich helpu hefyd mewn materion fel yma. Os dymunwch drafod unrhyw beth yn breifat, gofynnwch ac fe wnawn yn siŵr fod hynny'n digwydd.

Rhifau ffôn defnyddiol:

Galw Iechyd Cymru / NHS Direct:

08454647

www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr:

(01352) 803434

www.bcuwales.nhs.uk